

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Fawrth, 4 Rhagfyr 2018 yn Neuadd Pentref Carmel

Minutes of the Finance Committee held at Carmel Village Hall, Tuesday 4th December 2018 at 7.00pm

Yn bresennol / Present

Cynghorwyr Gwyn Owen Jones; Eddie Willcox ; David Davies
David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor.

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairman's Welcome

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid etholwyd Cyng, David Davies i'r gadair am y noson. Croesawodd pawb i'r cyfarfod. Aeth yn syth yn ei flaen at y rhaglen.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng Bryn Williams; Cyng Gerwyn Owen; Cyng Hywel J Owen ; Cyng Alun Wyn Jones.

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Rheolwr – ar y drafodaeth cynllun Pensiwn – ni wnaeth adael yr ystafell gan fod yr aelodau angen gwybodaeth ganddo / The Manager – he did not leave the room and participated in the discussion as members required information from him.

4 Lloches Bws Cae'r Moel

Adroddwyd gan y Rheolwr ar y canlynol-

Elfyn Ellis wedi anfon pris am y gwaith fel a ganlyn-

Dymchwel £880.00
Gwaith draenio £460.00
Lloches Newydd £4,272.00
Cyfanswm £5,612.00

Dywedodd y Rheolwr fod Elfyn wedi dymchwel y lloches oherwydd ei gyflwr peryglus. Tydi'r Cyngor heb roi archeb waith iddo am weddill o'r gwaith. Bydd angen cyfarfod ar safle i benderfynu ar faint a siâp y lloches newydd.

Yswiriant

Aseswr Yswiriant ar ran Zurich (Charles Hughes o Gwmni Vericlam) wedi cysylltu yn datgan mai **£2,615.83** ydi'r setliad yswiriant gan nad yw gwerth y lloches ar polisi y Cyngor yn cyrraedd at cost Elfyn Ellis.

Daw ei gyfrifiad fel a ganlyn-

Sum Insured £5,271.40
Y golled wedi eithrio y gwaith traenio £5,152.00
Cyfartaledd £2,715.83 (rhannu gyda £10,000)
Llai "excess" £100.00

Setliad a gynigir **£2,615.83**

Noder mai £2,635.70 ydi gwerth y lloches ar polisi yswiriant y Cyngor. Bydd yr yswirwyr yn ceisio adennill ei colled trwy ddefnyddio gwasanaeth Cyfreithwyr DAC Beachcroft, a bydd y cwmni yma yn adennill holl golled y Cyngor gan perchennog y tractor a fyddai'n cynnwys yr "excess" o £100 a chostau gweinyddol y Cyngor.

Nodwyd fod yr Aseswr wedi diystyru'r gwaith draenio. Eglurodd y Rheolwr fod hwn yn waith angenrheidiol yn ôl Elfyn i sicrhau nad oes dwr yn dod i mewn i'r lloches newydd o'r cae yng nghefn y lloches. 'Roedd yr aelodau o'r farn fod hwn yn gost y dylai'r yswirwyr ei ystyried a gellir gwneud achos i DAC Beachcroft geisio ei adennill.

Barn yr aelodau oedd y dylid derbyn pris Elfyn Ellis o £5,612.00 ac ariannu'r gwaith fel a ganlyn

Cost Elfyn Ellis **£5,612.00**

Ariannu-

Ad-daliad Yswiriant £2,615.83

Gweddill yng nghyllideb 2018-19 pennawd "Datblygiadau" £2,726.74

Man addasiadau £269.43

Cyfanswm **£5,612.00**

Argymhellion i'r Cyngor –

- i) Fod y Cyngor yn derbyn pris Elfyn Ellis o £5,612.00 i gyflawni'r gwaith o ddymchwel y lloches, gwaith traenio a gosod lloches newydd (paneli)**
- ii) Fod y Cyngor yn ariannu'r gwaith fel y nodwyd uchod**
- iii) Fod y Cyngor yn gwthio'r yswirwyr i ysgwyddo cost y traenio**
- iv) Fod y Cyngor yn derbyn y tebygolrwydd na fyddai yn derbyn y golled o £2,996.17 gan Gwmni Cyfreithwyr DAC Beachcroft**

Recommendation to the Council -

- i) That the Council accepts the costs received from Elfyn Ellis for the demolition, drainage and erection of a new panelled shelter***
- ii) That the Council finances the work as noted above.***
- iii) That the Council insists with the insurers to include the drainage costs.***
- iv) That the Council notes that it may not be able to recover the loss of £2,996.17 from DAB Beachcroft Solicitors***

5 Cyllideb 2018/19 – Adolygiad Trydydd Chwarter hyd at 30 Tachwedd 2018 2018/19 Budget - Third Quarter Review to 30 November 2018

Dosbarthwyd copïau o'r canlynol i bob aelod

- Cyfrif Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 30 Tachwedd 2018
- Cysoniad y Banc i 30 Tachwedd 2018
- Y Gyllideb yn erbyn Gwir Wariant 30 Tachwedd 2018 ac Ymrwymadau at 31 Mawrth 2019
- Balansau y Cyngor ar 30 Tachwedd 2018
- Datganiadau Banc (y ddau gyfrif) at 30 Tachwedd 2018

'Roedd y Clerc eisoes wedi anfon copïau o'r uchod i bob aelod ymlaen llaw.

Aethpwyd ati i edrych ar rhai penawdau yn y gyllideb lein wrth lein ynghyd a balansau'r Cyngor.

Trafodwyd y materion canlynol-

Pennawd "Datblygiadau"

Gweddill yn y gyllideb o £2,726.74 – ymrwymo ar gyfer lloches bws Cae'r Moel

Pensiwn y Clerc

Mynegodd y Rheolwr ei fod yn dymuno optio i mewn i gynllun pensiwn llywodraeth leol ("LGPS= Local Government Pension Scheme) yn unol â'i gytundeb cyflogaeth.

Adroddwyd ganddo fod Rheolwr y Pensiwn LGPS Cyngor Gwynedd wedi datgan fod cyflogwyr yn gwynebu costau sylweddol ar gyfer gweithwyr sydd yn ymuno a chynllun yr LGPS yn benodol-

- Ffi un tro i Actiwri y Cynllun o £1,500 i gyfrifo cyfraniad y cyflogwr.
- Gall cyfraniad y cyflogwr fod oddeutu 25% o gyflog blynyddol y gweithwyr.
- Rhaid i'r cyflogwr cael cronfa wrth gefn. Mewn sefyllfa i weithwyr sydd yn y cynllun LGPS i golli swydd rhaid i'r cyflogwr dalu am y gostyngiad actiwaidd ("actuarial reduction) am y golled pensiwn hyd at "normal pension age" y gweithwyr – hynny yw talu am cost colled pensiwn y gweithwyr.

Sylwadau Aelodau –

DCD - Byddai rhaid i'r Cyngor ystyried y mater ac edrych a oes opsiynau eraill fyddai o bosib o fudd gwell i'r gweithiwr ac i'r cyflogwr.

Rhoddion 137 - Canolfan Y Fron

Cyng. Eddie Willcox yn datgan mai dim ond 18% o drigolion y Fron oedd o blaid sefydlu Canolfan y Fron ac felly ddim yn fodlon i'r Cyngor rhoi cyfraniad.

Eglurodd EGO fod y Cyngor wedi ychwanegu £1,100 i'r gyllideb Rhoddion Adran 137 'nol yn 2017-18 ar gyfer cais a fyddai'n dod gerbron ond mater i'r Pwyllgor Cyllid hwn a'r Cyngor llawn yn Chwefror fydd penderfynu cyfrannu ai peidio. Yn amodol ar dderbyn cais gan y Ganolfan.

Mwsogl ar Llwybrau Mynwentydd

Adroddwyd gan y Rheolwr fod angen glanhau'r llwybrau o fwsogl yn arbennig yn fynwent Bryn'rodyn a Carmel. Amcangyfrif mai'r gost fydd £750 yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd ar y llwybrau 'nol yn 2017.

Ymgysylltu

Adroddwyd ar y canlynol-

Cyllideb £3,900

Llai - Gwariant hyd yma ar amlenni a thrwydded £987.50

Llai – Ymrwymiad Cwmni Celyn £1,600

Yn gadael - £1,312.50 - cadw ar gyfer talu argraffu a chost y dychweliadau

Mae'n bosib y bydd yma danwariant ond cadw'r ymrwymiad yn llawn ar hyn o bryd

Mynwentydd

Adroddwyd gan y Rheolwr fod llwybrau mynwentydd Bryn'rodyn a Carmel yn wyrdd gyda mwsogl ac yn gwneud y llwybrau yn llithrig. Barn yr aelodau oedd cynnwys ymrwymiad o £750.00 gyfer y gwaith.

Balansau fel adroddwyd ond wedi ei addasu ar gyfer yr uchod felly -

Cysoniad y Banc i 30 Tachwedd 2018 / Bank Reconciliation to 30 November 2018	
Balansau'r Banc i 30 Tachwedd/November 2018 – Balances in the Bank	(£37,141.34)
- Llai Credydwyd a Sieciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£2,149.60
+ Dyledwyr / Debtors	(£2,136.08)
Is-gyfanswm - Cyfanswm yr Arian ar 30/11/18 / Sub Total Cash at 30/11/18	(£37,127.82)
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	dim / none
Is-gyfanswm / Sub Total	(£37,127.82)
- Gwariant ymrwymedig i 31 Mawrth 2019 / Committed Expenditure to 31 March 2019	£36,408.12
+ Incwm heb gyrraedd i 31 Mawrth 2019/ Income due to 31 March 2019	(£4,418.09)
Is-gyfanswm / Sub Total	(£5,137.79)
- Llai Cronfeydd Penodol (£5,000 AWG a £1,000 Cronfa Adnewyddu Offer Cae Chwara	£6,000.00

Less Specific Funds (£5,000 in reserve & £1,000 Playing Fields Renewal Fund)	
Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2019	£862.21
Total Overspent (under) spend expected as at 31 March 2019	

Cronfeydd y Cyngor ar 30 Tachwedd 2018 / Specific Funds as at 30 November 20	
Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve Fund – Council Policy	(£5,000.00)
Cronfa Adnewyddu Offer Caeau Chwarae / Playing Fields Renewal Fund	(£1,000.00)
Cyfanswm y Cronfeydd / Total Specific Funds	(£6,000.00)

Cymeradwywyd y papurau ac fe'i harwyddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor

Argymhelliad i'r Cyngor -

- i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel y nodwyd uchod**
- ii) Fod y Cyngor yn derbyn fod y gyllideb yn gorwario £862 wedi cynnwys ymrwymiad ar gost yswiriant ychwanegol (newid y polisi), cost yr actiwri ar gyfer ymuno a chynllun yr LGPS, a glanhau'r llwybrau o fwsogl.**
- iii) Fod y Cyngor yn nodi fod yna benawdau yn y gyllideb sydd heb ymrwymiad ond mai doeth fyddai cadw'r cyllidebau am y tro gan fod yna 4 mis o'r flwyddyn ariannol yn parhau.**
- iv) Fod y Cyngor yn gofyn am arweiniad pellach gan y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol optio mewn i'r cynllun LGPS**

Recommendation to the Council -

- i) That the Council accepts that the balances as noted are correct as at 30 November 2018**
- ii) That the Council accepts that the budget shows an overspend of £862 after committing amendments to the insurance policy, a report by the Local Government Pension Scheme (LGPS) Actuary, and to clear moss from the cemetery paths at Bryn'rodyn and Carmel,.**
- iii) That the Council notes that there are some budget heads without a spending commitment but retain the budget at this time as there is still 4 months until the end of the financial year.**
- iv) That the Council asks the Finance Committee for further guidance on the financial implication in opting in to the Local Government Pension Fund.**

6 Yswiriant y Cyngor

Yn dilyn sylwadau yr Aseswr Yswiriant ynglyn a diffyg gorchydd yswiriant ar llochesi bws y Cyngor gwnaed adolygiad o bolisi yswiriant y Cyngor yn benodol ar yr asedau.

Argymhellion yr aelodau oedd addasu'r polisi fel a ganlyn-

Llochesi Bws

Addasu'r polisi i ddangos y canlynol-

1 yn y Fron paneli £5,000

3 yng Ngharmel paneli 3 x £5000 = £15,000

3 yn Groeslon paneli 3 x £5000 = £15,000

1 Bethesda Bach brics £10,000=£10,000

1 Ffrwd Llandwrog brics a cherrig £10,000

1 Cae Halen, Llandwrog brics £10,000

1 Maes y Llan Llandwrog paneli £7,500

Cyfanswm 11 lloches gyda cyfanswm gorchudd yswiriant o £72,500

Adroddwyd gan y Rheolwr fod Zurich wedi cadarnhau byddai addasu'r polisi fel yr uchod yn costio £236.00 y flwyddyn yn ychwanegol a £190.65 eleni ar sail pro rata

Offer yng Nghartref y Clerc £2,000 (cyfrifiadur/ argraffydd/ cabinet x 2 yn bennaf)

Caeau Pêl-droed

Waliau Ffensys a Giatiau'r Caeau Pêl droed - cadw at £106,090 i'r ddau gae

Mynwentydd

Waliau Blaen Ffensys a Giatiau'r tair mynwent - cadw at £31,827 (£10,609 yr un) - angen gofyn i'r yswirwyr i addasu'r geiriad i gynnwys y gair "blaen"

Offer Caeau Pel-droed – dim newid felly cadw yn £2,121.80 ar gyfer goliau y ddau gae (er nodwyd nad oes goliau ar cae y Fron)

Barn yr aelodau-

Angen cadarnhad fod y polisi yn cynnwys yswiriant ar gyfer y tair mynwent. Dywedodd y Rheolwr fod yna ohebiaeth ganddo gyda Zurich yn cadarnhau fod yr elfen atebolrwydd cyhoedus (public liability) yn cynnwys y tair mynwent.

DCD o'r farn fod angen asesiad gan person cymwys i asesu gwerth yswiriant waliau blaen y mynwentydd a waliau y caeau pel droed.

Argymhellion i'r Cyngor fel a ganlyn

- i) Fod y Cyngor yn addasu'r polisi fel y nodir uchod*
- ii) Fod y Cyngor yn prynu gwasanaeth proffesiynol i asesu gwerth yswiriant ar waliau blaen y mynwentydd gan gynnwys y ffensys a'r giatiau ynghyd a waliau, ffensys a giatiau y caeau pêl-droed*
- iii) Fod y Cyngor yn gofyn i Zurich i addasu geiriad y polisi i "Waliau Blaen y Mynwentydd , Ffensys a Giatiau"*

Recommendation to the Council -

- i) That the Council makes the adjustments as noted above to the Policy*
- ii) That the Council carries out an assessment to ascertain the insurance value on the front walls of the cemeteries including fences and gates as well as the walls, fences and gates of the football fields.*
- iii) That the Council requests Zurich to adjust the wording on the policy to Cemeteries Front Walls, Fences & Gates*

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 yr hwyr / The meeting ended 8:35 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

Signed by the Chairmam

Dyddiad - Date